CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Gwybodaeth i Rieni

Blwyddyn Ysgol

2022 / 2023

Cyhoeddwyd Medi 2021

Gwybodaeth Gyffredinol ynglŷn â Pholisïau a Threfniadau'r Awdurdod Lleol

Mynediad i Ddisgyblion

Cwricwlwm

Polisi Iaith

Cludiant

Lles

Gwasanaeth Dysgu
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

01248 752901
www.anglesey.gov.uk

Cynnwys

1	*Cyflwyniad*	*3*
2	*Mynediad*	*4*
3	*Gordanysgrifio*	*8*
4	*Cwricwlwm*	*11*
5	*Polisi Iaith*	*14*
6	*Cludiant*	*15*
7	*Lles*	*17*

Atodiad I - Rhestr o'r ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd a wasanaethir

Atodiad II - Rhestr o ysgolion cynradd yn eu dalgylch

1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i rieni am bolisïau a threfniadau addysgol Awdurdod Lleol Môn yn unol â'i ddyletswydd dan ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer mynediad i ysgolion. Bwriad y fframwaith yw sefydlu trefniadau sy'n:

- Eglur, yn wrthrychol ac yn rhoi cyfle teg i bob plentyn gael lle boddhaol mewn ysgol;
- Rhoi gwybodaeth lawn i alluogi dewis gwybodus;
- Sicrhau gweithdrefnau mynediad lleol sydd wedi eu cydlynu'n dda ac sy'n hawdd i'w dilyn, gyda'r lleiafswm o fiwrocratiaeth, sy'n rhoi cyfle i rieni gael eu hysgol ddewisol;
- Sicrhau hawl statudol ac effeithiol i apelio os na chaiff rhieni eu bodloni.

Mae Polisi Mynediad yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac nid yw'n gwahaniaethu ar sail anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd neu famolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol yn erbyn unigolyn dan ei drefniadau a'i benderfyniadau ynghylch pwy y cynhigir mynediad iddynt.

Gellir cael copïau o'r dogfennau hyn yn ddi-dâl drwy:

- Ffonio'r Gwasanaeth Dysgu ar 01248 752901;
- E-bostio addysg@ynysmon.gov.uk;
- Ymweld â gwefan yr Awdurdod Lleol www.ynysmon.gov.uk;
- Ymholi mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol.

Ysgolion sy'n derbyn bechgyn a merched fel ei gilydd yw holl ysgolion Môn. Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun cymunedol 11-18 oed. Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd hefyd ond mae un ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chyswllt â'r Eglwys Gatholig (Ysgol Santes Fair, Caergybi) ac un ysgol sefydledig (Ysgol Caergeiliog).

Yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod mynediad ar gyfer y 5 ysgol uwchradd a 38 o'r 40 ysgol gynradd ym Môn. Y corff llywodraethol perthnasol yw'r awdurdod mynediad ar gyfer Ysgol Santes Fair ac Ysgol Caergeiliog.

Er bod yr wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar amser ei chyhoeddi, mae'n bosib y bydd newidiadau yn y Gwasanaeth Dysgu a fydd yn effeithio ar drefniadau'r Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn dan sylw neu mewn blynyddoedd i ddod.

2. MYNEDIAD

Addysg Gynnar/Feithrin

Nid yw mynediad i leoliad Addysg Gynnar (cyn-ysgol) ar safle ysgol yn gwarantu mynediad dilynol i'r dosbarth Meithrin yn yr ysgol benodol honno gan fod hwn yn gylch mynediad ar wahân.

Mae gan blant yr hawl i 10 awr o Addysg Gynnar ddi-dâl bob wythnos, o ddechrau'r tymor yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd am **weddill** y flwyddyn academaidd.

Mae dau opsiwn i rieni mewn perthynas ag addysg feithrin (a ddiffinnir fel darpariaeth ar gyfer plant tair oed):

1. **Addysg Gynnar Gyn-ysgol (a elwir weithiau yn Gylchoedd Meithrin neu Flynyddoedd Cynnar)**

Cynhigir lleoedd gan bartneriaid y lleoliadau gwirfoddol a phreifat, nid gan yr Awdurdod Lleol. Mae rhestr o'r darparwyr ar gael drwy ymweld â gwefan Mudiad Meithrin, gwefan Blynyddoedd Cynnar a gwefan y Cyngor.

NB Yn ogystal â 10 awr o addysg gynnar, bydd rhieni'n gymwys am Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sef mwyafswm o 20 awr o ofal plant mewn lleoliad Arolygiaeth Gofal Cymru cofrestredig os ydy'r ddau riant/gofalwr yn gweithio am 16 awr neu fwy bob wythnos. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn ar 01248 352436 neu e-bostiwch 30hourchildcare@gwynedd.llyw.cymru, sy'n gweithredu'r Cynnig Gofal Plant ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, neu ymwelwch â'n gwefan "Cynnig Gofal Plant – Gofal Plant a Ariennir gan y Llywodraeth i blant 3 a 4 oed."

2. **Addysg Feithrin yn yr ysgol (dosbarth rhan amser)**

Mae'r Awdurdod yn cynnig addysg feithrin rhan amser di-dâl (10 awr yr wythnos) i ddisgyblion yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd cyn 31 Awst yn y rhan fwyaf o leoliadau ysgol (am flwyddyn academaidd **lawn**) - gan amlaf mewn sesiwn fore ond bydd rhai ysgolion yn cynnig sesiwn brynhawn. Mewn ysgolion sydd â sesiwn fore a phrynhawn nid oes hawl cyfreithiol gan rieni i ddewis pa sesiwn gall eu plentyn fynychu. Ar hyn o bryd, mae 37 o ysgolion cynradd ym Môn yn cynnig addysg feithrin rhan amser - gweler Atodiad II am restr lawn.

Dylid nodi:

- Os yw plentyn cymwys yn mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, caiff oriau ychwanegol eu hystyried fel darpariaeth gofal, a gallwch fod yn gymwys am 20 awr ddi-dâl bellach.
- Os yw plentyn yn derbyn addysg feithrin mewn ysgol gynradd, nid oes ganddynt hawl i ddarpariaeth addysg ddi-dâl yn y Cylch Meithrin hefyd, ond gallant gymryd y cynnig grant gofal.

Dylid gwneud ceisiadau cychwynnol am fynediad i Addysg Feithrin yn yr ysgol drwy Gyngor Sir Ynys Môn.

Dan reolau Llywodraeth Cymru, nid yw penderfyniad i roi mynediad i blentyn i ddosbarth meithrin mewn ysgol, na mynychu grŵp meithrin gwirfoddol lleol, yn gwarantu lle yn y dosbarth Derbyn. Bydd angen cwblhau cais newydd cyn mynediad i'r dosbarth Derbyn (addysg lawn amser).

Ysgol Gynradd (addysg dderbyn lawn amser)
Mae'r Awdurdod yn cynnig lle llawn amser i blant mewn dosbarth Derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Lle cynigir lle, mae gan rieni'r dewis o ohirio mynediad eu plentyn nes ymlaen yn yr un flwyddyn ysgol hyd at y tymor yn dilyn pen-blwydd eu plentyn yn 5 oed.

Yr unig eithriadau i fynediad yn dilyn y pen-blwydd yn 4 oed fydd mewn achosion arbennig lle mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai peidio â chaniatáu mynediad cynnar yn rhwystro datblygiad cymdeithasol ac/neu addysgol y disgybl yng nghyd-destun Deddf Plant 1989 neu'r Rhestr Amddiffyn Plant.

Ysgolion Uwchradd
Derbynnir disgyblion i ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol gan amlaf yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed. Yr unig eithriadau i fynediad yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed fydd mewn achosion arbennig lle mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai rhwystr i ddatblygiad cymdeithasol ac/neu addysgol y disgybl drwy beidio â'u trosglwyddo i'r ysgol uwchradd 12 mis cyn yr oed mynediad arferol neu drwy beidio â'u cadw yn yr ysgol gynradd am 12 mis yn hwyrach na'r oed trosglwyddo arferol.

AWDURDODAU MYNEDIAD
Yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod mynediad ar gyfer 5 ysgol uwchradd a 38 ysgol gynradd ym Môn ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar fynediad. Nid oes gan benaethiaid yr ysgolion hyn unrhyw rôl yn y broses fynediad ac ni fyddent yn trafod argaeledd lleoedd.

Rhaid cyflwyno'r ceisiadau'n electronig drwy ymweld â gwefan yr Awdurdod Lleol www.ynysmon.gov.uk a chwilio am "Mynediad i Ysgolion". Os hoffech gael copi papur, ymholwch yn yr ysgol.

Dylid nodi bod rhaid gwneud cais am fynediad i ddosbarth derbyn ar gyfer plant sy'n mynychu dosbarth meithrin neu gylch meithrin lleol ar hyn o bryd.

- Rhoddir pob penderfyniad yn ysgrifenedig
- Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu trafod argaeledd lleoedd dros y ffôn na dros e-bost
- Ymdrinnir â phob dewis yn gyfartal
- Cewch eich cynghori'n gryf i **ddatgan mwy nag un dewis** gan fod posibilrwydd na fydd yr Awdurdod yn gallu cynnig eich dewis i chi. Os na all yr Awdurdod gynnig eich dewis i chi, ymdrinnir ag unrhyw ddewis newydd fel cais hwyr.
  Mae'n bosib na fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu cynnig lleoedd i'r rhai sy'n hwyr yn gwneud cais os yw'r ysgolion hynny'n llawn yn barod.

Ysgol Santes Fair ac Ysgol Caergeiliog
Gan mai'r corff llywodraethu yw'r awdurdod mynediad mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, cyfrifoldeb llywodraethwyr yr ysgolion yw mynediad i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir (Santes Fair) a'r ysgol sefydledig (Ysgol Caergeiliog) ym Môn.

Ceir manylion ynglŷn â pholisïau mynediad llawn yr ysgolion hyn gan y penaethiaid neu ar wefannau'r ysgolion.

Gwybodaeth i Rieni

Ysgol Santes Fair, Caergybi: 01407 763176
Polisi Mynediad ar gael drwy ddilyn:
www.ysgolsantesfair.co.uk/page/policies/49039

Ysgol Caergeiliog 01407 740619
Polisi mynediad ar gael drwy ddilyn: www.caergeiliogfoundationschool.co.uk (o dan “Policies”).

GWNEUD CAIS

Pryd i wneud cais

Mynediad i:	**Ffurflenni cais ar gael**	**Dyddiau cau derbyn ceisiadau**	**Dyddiad hysbysu rhieni**
Cynradd – Dosbarth Meithrin	Medi 2021	01/02/2022	16/04/2022
Cynradd – Dosbarth Derbyn	Medi 2021	01/02/2022	16/04/2022
Uwchradd (Blwyddyn 7)	Medi 2021	19/12/2021	01/03/2022
Ysgol Santes Fair	Medi 2021	01/02/2022	Gan yr Ysgol
Caergeiliog	Medi 2021	01/03/2022	Gan yr Ysgol

Mae’n hanfodol bod rhieni’n ymgeisio erbyn y dyddiadau cau gan y cynigir lleoedd i’r rheini sydd wedi ymgeisio ar amser cyn unrhyw geisiadau hwyr, hyd yn oed os yw’r ceisiadau hwyr o’r dalgylch.

Fodd bynnag, dan amgylchiadau eithriadol (e.e. salwch), gall yr Awdurdod ystyried ceisiadau hwyr sy’n cyrraedd cyn y gwneir cynigion fel petaent ar amser. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ceisiadau hwyr mor fuan â phosib mewn llwythi.

Dyraniad Lleoedd

Mae’r Awdurdod Lleol wedi adnabod ardal ddaearyddol benodol ar gyfer bob ysgol, a elwir yn ddalgylch. Mae dalgylchoedd ysgol yn dylanwadu ar weithdrefnau mynediad a pholisïau cludiant ysgolion, fodd bynnag, nid yw byw o fewn dalgylch arbennig yn gwarantu lle yn ysgol yr ardal honno. Gellir gweld mapiau sy’n dangos ffiniau’r dalgylchoedd gan y Gwasanaeth Dysgu neu yn yr ysgol.

Mae disgyblion gan amlaf yn mynychu’r ysgol yn y dalgylch y maent yn byw ynddi a lle bydd yr Awdurdod Lleol wedi creu darpariaeth gan ystyried llety, staffio ac adnoddau eraill gan gynnwys cludiant ysgol.

Wrth wneud cais am le mewn ysgol uwchradd, dylai rhieni fod yn ymwybodol mai cyfeiriad y cartref sy’n dynodi’r dalgylch ysgol uwchradd yn hytrach na pha ysgol gynradd a fynychwyd

gan eu plentyn. Mae hyn yn effeithio b'run ai yw cludiant ysgol yn ddi-dâl ai peidio i ddisgyblion.

PWYSIG – Cynghorir rhieni / gofalwyr i ystyried y goblygiadau cludiant ysgol cyn mynegi dewis ysgol. Gweler Adran 6 am ragor o fanylion.

Trefnwyd pob ysgol gynradd a restrir yn Atodiad II yn ôl dalgylch ysgol uwchradd. Mae bob ysgol uwchradd yn Atodiad I wedi ei rhestru gyda'r ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu ei dalgylch.

Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth **dwyllodrus** neu wybodaeth **fwriadol gamarweiniol** er mwyn cael lle mewn ysgol ar gyfer eu plentyn, mae gan yr Awdurdod yr hawl i dynnu'r cynnig yn ei ôl. Lle tynnir lle yn ôl, gellir ailgyflwyno'r cais ac os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd Rhif Mynediad yr ysgol. Mae'r Rhif Mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a gyfrifir yn defnyddio fformwla Llywodraeth Cymru y mae'n rhaid ei pharchu.

Dim ond dan **amgylchiadau eithriadol** gall yr Awdurdod roi mynediad i blant dros y Rhif Mynediad, a hynny os na fydd y mynediad yn effeithio'r ysgol er gwaeth yn y tymor byr a'r tymor hir, a heb gael effaith niweidiol ar ysgolion cyfagos. Mae deddfwriaeth yn cyfyngu niferoedd dosbarthiadau i 30 os yw'r rhif mynediad wedi ei gyrraedd yn nosbarthiadau'r babanod.

Os yw'r nifer o geisiadau am fynediad i unrhyw grŵp blwyddyn yn llai na Rhif Mynediad yr ysgol honno, bydd yr Awdurdod Mynediad yn derbyn yr holl ddisgyblion sydd wedi gwneud cais am fynediad.

Pan fydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael mewn ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu pob ymgeisydd yn erbyn y Meini Prawf Gordanysgrifio ac yn dyrannu'n unol â hynny.

3. GORDANYSGRIFIO

(Ar gyfer Ysgol Santes Fair ac Ysgol Caergeiliog, cyfeiriwch at eu polisïau mynediad nhw)

Os oes unrhyw ysgol wedi'i gordanysgrifio, defnyddir y meini prawf canlynol i flaenoriaethu ceisiadau:

1. Plant mewn gofal a phlant sydd wedi bod mewn gofal yn flaenorol.
2. Disgyblion a argymhellir i'w lleoli yn yr ysgol gan Wasanaethau Cymdeithasol neu Swyddog Meddygol y Sector oherwydd eu hanghenion meddygol neu seicolegol, neu lle mae datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) plentyn yn enwi ysgol benodol.
3. Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol ac a fydd yn dal ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn ar fin dechrau.
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol ac a fydd yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol pan fydd y plentyn ar fin dechrau.
6. Disgyblion nad ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgol uwchradd ond sydd wedi mynychu ysgol gynradd sydd yn nalgylch yr ysgol. (Mae'r maen prawf hwn yn berthnasol i geisiadau i ysgol uwchradd yn unig).
7. Disgyblion sy'n byw tu allan i'r dalgylch.

Os yw'r plentyn yn rhannu ei amser rhwng y ddau riant, cyfeiriad cartref plentyn at ddiben mynediad yw'r cyfeiriad ble mae ef/hi yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Dylai rhieni sicrhau y caiff y Gwasanaeth Dysgu ei hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau. Gellir tynnu cynnig am le yn ei ôl os canfyddir nad yw'r cyfeiriad a roddwyd yn ddilys.

Caiff pob pellter ei fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf o ddrws blaen yr adeilad sy'n gartref i'r plentyn at fynedfa gydnabyddedig agosaf yr ysgol, a gaiff ei fesur gan ddefnyddio systemau mapio digidol yr Awdurdod. Ni chaiff disgyblion o du allan i'r Awdurdod Lleol eu trin yn llai ffafriol na disgyblion o Ynys Môn wrth ddefnyddio'r meini prawf pellter.

Mae'r term 'brawd' neu 'chwaer' yn cynnwys hanner brawd/chwaer, llys frawd/chwaer, plant sydd wedi cael eu mabwysiadu a phlant maeth sy'n byw yn yr un teulu.

Mewn unrhyw achosion o efeilliaid neu enedigaethau lluosog eraill lle gall yr Awdurdod ond cynnig rhai o'r lleoedd sydd eu hangen, gall y rhieni dderbyn y lleoedd sydd ar gael neu eu cadw ar agor hyd 30ain o Fedi yn y gobaith y bydd lleoedd eraill yn dod ar gael o blith y rhestr aros.

Ceisiadau aflwyddiannus

Bydd yr Awdurdod Lleol perthnasol yn cynnal rhestr aros o ymgeiswyr sydd wedi methu â chael lle yn eu hysgol ddewisol. Os nad oes lle yna'n dod ar gael yn yr ysgol, bydd plant yn cael eu derbyn o'r rhestr aros i gymryd unrhyw leoedd yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio.

Ni fydd blaenoriaeth yn seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cais ei ychwanegu at y rhestr. Mewn achosion lle gwrthodir mynediad, gofynnir i rieni roi gwybod i'r awdurdod mynediad priodol yn ysgrifenedig os ydynt yn dymuno rhoi enw eu plentyn ar restr aros yr ysgol am leoedd. Bydd yr awdurdod mynediad priodol yn cynnal rhestr aros hyd at y 30ain o Fedi ym mlwyddyn y mynediad i'r ysgol.

Ni all yr Awdurdod Lleol roi unrhyw arwydd o'r tebygolrwydd o gael cynnig lle oddi ar restr aros.

Apeliadau
Gall rhieni hefyd apelio i banel annibynnol yn erbyn penderfyniad yr awdurdod mynediad i beidio â rhoi mynediad i'r plentyn o fewn 15 diwrnod gwaith (10 diwrnod gwaith ar gyfer Santes Fair). Cynhelir gwrandawiadau apêl o fewn 30 diwrnod ysgol o'r apêl yn cael ei gyflwyno, a bydd rhieni'n cael eu hysbysu o'r penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r Panel ystyried yr apêl.

Os yw rhieni sydd wedi cael gwrandawiad apêl yn credu bod y Panel wedi ymddwyn yn amhriodol neu'n afresymol wrth ymdrin ag achos, gall y rhieni wneud cwyn i'w ymchwilio i'r Comisiynydd dros Weinyddu Lleol (Ombwdsman yr Awdurdod Lleol) neu ymofyn am adolygiad barnwrol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer i ystyried cwynion yn erbyn penderfyniad paneli apêl annibynnol.

Nid oes hawl i apelio yn achos penderfyniad i wrthod lle rhan amser mewn dosbarth meithrin.

Trosglwyddo a Symud Plant
Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i un arall oni bai eu bod yn yr oed trosglwyddo arferol, neu pan fydd y teulu yn symud i gyfeiriad newydd, gyflwyno cais i'r Gwasanaeth Dysgu.

Mae gan yr Awdurdod **15 diwrnod ysgol** ar ôl derbyn y cais i ymateb iddo.

Cynghorir rhieni i beidio â throsglwyddo eu plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn osgoi unrhyw ymyrryd ar eu cyrsiau ysgol.

Bydd y meini prawf mynediad a gordanysgrifio ar gyfer y meithrin, derbyn ac ysgolion uwchradd, fel y manylir uchod, hefyd yn berthnasol ar gyfer ceisiadau i drosglwyddo rhwng ysgolion yn ystod y flwyddyn ysgol.

Ysgolion tu allan i Ynys Môn
Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud cais am fynediad i ysgol tu allan i Fôn gysylltu ag Adran Addysg yr Awdurdod Lleol perthnasol ar gyfer yr ysgol honno am ragor o wybodaeth.

Plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol
Pan fydd plant sydd ag AAA/ADY yn symud i:

- leoliad cyn-ysgol;
- ysgol gynradd;
- ysgol uwchradd;
- addysg bellach

neu rhwng neu allan o'r lleoliadau hynny, lle bo'n briodol bydd rhaid cynllunio'r broses drosglwyddo i sicrhau proses lyfn sy'n bwysig i'r holl blant a'u deilliannau addysgol a chymdeithasol. Gwneir hyn yn defnyddio dull person-ganolog, gan ganiatáu i'r plentyn a rhiant y plentyn i drafod y broses drosglwyddo. Bydd rhai cyfarfodydd yn trafod cynllunio trosglwyddo yn cael budd o gynnwys partneriaid eraill y gall helpu'r disgybl i ddeall sut y bydd y broses drosglwyddo yn gweithio yn ymarferol a pha gymorth ychwanegol fydd ar gael iddynt. Cyfunir proses drosglwyddo gan amlaf gydag adolygiad CDU. Gall hyn arwain at adolygu'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol yr amlinellir yn y CDU neu ddisgrifiad o le mewn ysgol neu sefydliad arall penodol. I gwrdd â gofynion y Ddeddf ADY, mae'r Awdurdod yn ffafrio prif lif gyda'r plentyn yn cael ei addysgu yn ei ysgol leol ochr yn ochr â'i gyfoedion; ar gyfer y nifer fach o ddisgyblion na

ellir cwrdd â'u hanghenion mewn ysgol prif lif, bydd yr Awdurdod yn lleoli'r plentyn. Os oes CDU ar waith, dylid cofnodi cymorth arall nad yw'n ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn y CDU.

Os ydych yn pryderu fod gan eich plentyn Anghenion Addysgol Arbennig, siaradwch â'r athro/athrawes dosbarth neu'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig. Efallai y bydd rhieni plant cyn-ysgol yn dymuno siarad â'r arweinydd/rheolwr yn eu lleoliad cyn-ysgol, neu Ymwelydd Iechyd. Mae gwefan y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn darparu gwybodaeth i rieni, www.adyach.cymru. Gallwch hefyd gysylltu â swyddogion Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Awdurdod a fydd yn gallu darparu gwybodaeth i rieni plant oed ysgol a phlant cyn-ysgol. Gellir cysylltu â nhw ar 01286 679007.

Mynediad i'r Chweched Dosbarth

Mae manylion pellach ar gael yn llawlyfrau blwyddyn 12/13 (chweched dosbarth) ysgolion unigol. Cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda.

4. CWRICWLWM

Mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio sicrhau addysg o'r ansawdd orau bosibl i holl ddisgyblion/myfyrwyr Môn, yn unol â'u hoedran, gallu a'u diddordeb/tueddfryd er mwyn iddynt allu tyfu'n bersonoliaethau

llawn, i ddatblygu ac ymarfer eu holl ddoniau, a chymhwyso eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog.

Mae ysgolion yn gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn sy'n cynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng y pynciau amrywiol.

Mae'r ysgolion uwchradd yn cyflwyno cwrs addysg i ddisgyblion 14-18 sydd wedi ei seilio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac ar Lwybrau Dysgu 14-19. Trwy gynnig rhaglen effeithiol o addysg bersonol a chymdeithasol a chyfleoedd i ddilyn rhaglenni o gyrsiau cyn-alwedigaethol neu alwedigaethol, mae'r ysgolion nid yn unig yn ategu a chryfhau'r cyflwyniad i'r cwricwlwm cenedlaethol ond hefyd yn sicrhau fod gan bobl ifanc yr wybodaeth, y medrau a'r cymwysterau y bydd eu hangen arnynt mewn cymdeithas dechnegol sydd yn rhan o economi Ewrop a'r byd.

Gyrfa Cymru
Mae Gyrfa Cymru'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth yrfaol ddi-dâl a diduedd i gynorthwyo pobl i gynllunio eu cam nesaf, p'run ai a ydynt mewn ysgol, addysg bellach, hyfforddiant, gwaith, neu'n chwilio am waith. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar eu gwefan www.careerswales.com neu drwy ffonio 0800 0284844

Cynnydd Disgyblion
Mae pob ysgol uwchradd yn darparu ffeil gynnydd i ddisgyblion 16 oed. Yn ogystal â chanlyniadau arholiadau allanol mae'r cofnod yn cynnwys cyfeiriad at rinweddau personol, sgiliau cyffredinol a'r gweithgareddau y bu'r disgybl yn ymwneud â hwy yn yr ysgol a'r gymuned.

Cyngor Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1996 mae'n ddyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i sefydlu CYSAG i ymgynghori ar faterion yn ymwneud ag addoli mewn ysgolion a'r Addysg Grefyddol a gyflwynir yn unol â maes llafur cytunedig. Sefydlwyd CYSAG ym 1989 a gellir cael copi o'i adroddiadau blynyddol o'r Swyddfa Addysg a'r Llyfrgelloedd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar safle Cyngor Sir Ynys Môn yma.

Codi Tâl am Weithgareddau Addysgol
Mae gan ysgolion unigol bolisi ar Godi Tâl am Weithgareddau Ysgol sy'n seiliedig ar Adrannau 449-462 o Ddeddf Addysg 1996.

Arholiadau Cyhoeddus
Cyfrifoldeb y llywodraethwyr, yn unol â chyngor penaethiaid ac mewn ymgynghoriad â rhieni, yw trefnu i ddisgyblion sefyll arholiadau allanol. Mae llawlyfrau'r ysgolion yn cynnwys rhestr o'r arholiadau a gynhigir a gwybodaeth am ganlyniadau. Bydd gan y llywodraethwyr bolisi ynglŷn â chodi tâl am ail-sefyll arholiadau. Gellir cael manylion pellach gan benaethiaid.

Trefn Gwyno
Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion ynglŷn â'r ffordd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdodau Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol sydd ar gael yn holl ysgolion yr Awdurdod, yn y swyddfa addysg ac yn holl lyfrgelloedd cyhoeddus y sir. Darperir copi'n ddi-dâl, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith oni bai am y Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol.

Gwybodaeth i Rieni

Pwysleisir, fodd bynnag, y dylid cyfeirio cwynion i'r Pennaeth neu staff eraill yr ysgol yn y lle cyntaf. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, ac oni bai bod yr amgylchiadau'n rai eithriadol iawn, bydd yr Awdurdod Lleol a'r Cyrff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam hwn wedi'i gyflawni cyn cyflwyno'r cwyn yn ffurfiol. Dylai rhieni ofyn am gopi o'r Polisi Cwyno gan yr ysgol. Yr un modd gyda chwynion sy'n ymwneud â gweithrediadau'r Awdurdod Lleol, disgwylir i rieni sy'n dymuno gwneud cwyn drafod y sefyllfa'n anffurfiol yn gyntaf gyda swyddogion priodol yn yr Awdurdod.

Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
Mabwysiadodd yr Awdurdod Lleol gyfres o egwyddorion i lywio ei weithgaredd yn y maes hwn sef:

- Sicrhau cyfle cyfartal, yn gwricwlaidd ac yn gymdeithasol i blant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Sicrhau ymateb Awdurdod Lleol cyfan ac ysgol gyfan i Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Addysgu disgyblion ag AAA mewn ysgolion prif-lif lle bo hynny'n bosib.
- Darparu addysg oddi fewn i'r Awdurdod lle bo'n bosib – dim ond os na ellir darparu'n briodol ar gyfer anghenion penodol disgybl yn yr ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod y darperir lleoliadau mewn ysgol arbennig nas cynhelir ac ysgolion annibynnol ym Môn neu'n all-sirol.
- Cyd-weithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol a mudiadau gwirfoddol perthnasol i'r maes.
- Sefydlu perthynas weithiol gyda rhieni a chyrff gwirfoddol sy'n eu cynrychioli. Darperir gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth annibynnol i rieni plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol gan SNAP Cymru (ffôn – 0808 801 0608/02920 348 990, gwefan -www.snapcymru.org)

Darpariaethau arbennig
- Canolfan Addysg Y Bont - ysgol arbennig yn Llangefni, a gynhelir gan yr Awdurdod ar gyfer disgyblion 3-19 oed gydag anawsterau dysgu dwys ac anghenion cymhleth. Mae'r ysgol yn darparu gwasanaeth all-gymorth i'r ysgolion prif-lif. Fel rheol mae'r disgyblion a leolir mewn lleoliad arbennig yn destun i ddatganiad AAA.
- Uned asesu blynyddoedd cynnar (Uned ABC) i blant dan 5 oed gydag anghenion ychwanegol.
- Darperir lleoliadau arbenigol i nifer fechan o ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol na ellir cwrdd â'u hanghenion o fewn ysgolion prif lif ac arbennig lleol.

Mae gweithredoedd yr Awdurdod Lleol yn y maes yn seiliedig ar Ddeddf Addysg 1996 a'r ddogfen "Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021". Drwy'r Cod ADY diffinnir dyletswyddau ysgolion prif-lif a'r Awdurdod Addysg yn ganolog yn glir, gan sefydlu system sy'n seiliedig ar ymateb graddedig a graddau o ymyrraeth gynyddol. Cyfrifoldeb yr ysgolion yn gyfan gwbl yw drwy eu cyllidebau datganoledig i ddarparu darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion â CDU Ysgol.

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i asesu anghenion disgyblion gydag anghenion cymhleth a dwys ac i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer lle bo angen yn unol â meini prawf asesu'r Awdurdod Lleol.

Cyfrifoldeb Ysgolion Prif-lif
Mae gan bob ysgol fap darpariaeth sy'n mynd i'r afael â'r camau y disgwylir i ysgol eu cymryd i atal datblygiad ADY, ac yna'n nodi'n glir y camau a'r strategaethau sydd ar gael gan yr ysgol i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY. Disgwylir i ysgolion ddarparu ar gyfer disgyblion â CDUau Ysgol (tua 14% o boblogaeth yr ysgol) o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Dylent sicrhau bod sianeli clir yn bodoli ar gyfer adnabod a chyfeirio disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a rhoi gwybod i athrawon amdanynt. Dylai ysgolion roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am unrhyw bryderon ynghylch cynnydd eu plentyn ac am unrhyw gamau a gymerir i asesu a diwallu unrhyw

anghenion ychwanegol a nodir. Dylid ymgynghori â rhieni ynghylch y ddarpariaeth a dylid rhoi gwybod yn llawn am unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod yr adolygiad. Mae'n ofynnol i bob ysgol brif ffrwd gael Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol
Mae gan yr Awdurdod Lleol rôl o gynllunio'n strategol a monitro darpariaeth. Mae ganddo ddyletswydd, gyda rhai darpariaethau, i addysgu disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion prif-lif. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried p'run ai i ymofyn am gyngor gan gynnwys gan seicolegydd addysgol, ac mae'n rhaid ymofyn am y fath gyngor os yw'n angenrheidiol. Pan gynhelir datganiad/CDU, adolygir cynnydd yn flynyddol, neu'n gynt pan fo'n briodol.

Disgwylir i ysgolion roi sylw penodol a darparu'n briodol ar gyfer disgyblion gydag ystod eang o anghenion ychwanegol. Ymysg y grwpiau hyn ceir disgyblion mwy galluog a thalentog, disgyblion sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol, disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol a disgyblion sydd â chyflyrau meddygol.

Y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Cyflogir tîm o Seicolegwyr Addysg ac Athrawon Arbenigol ar y cyd â Chyngor Gwynedd. Mae prif ddyletswyddau'r Gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion plant unigol. Maent yn cynnwys asesu'r rhwystrau dysgu ac yn rhoi cyngor i athrawon a rhieni ar sut y gellir eu goresgyn, yn ogystal â chefnogi plant yn uniongyrchol. Cyfeirir plant fel rheol at y gwasanaeth gan brifathrawon yn dilyn trafodaeth â rhieni ond gall eraill, gan gynnwys rhieni eu hunain, gysylltu â seicolegydd drwy'r Gwasanaeth Dysgu.

Y Gwasanaeth Lles Addysg
Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod y gwasanaeth yn wasanaeth cymorth hanfodol nid yn unig i ddisgyblion ond hefyd i ysgolion y sir. Nod y gwasanaeth yw lleihau'r rhwystrau dysgu i blant sydd heb fynediad at addysg drwy gynnig cyngor neu gymorth ymarferol. Canolbwyntir ar achosion sy'n ymwneud â'r meysydd canlynol:

- presenoldeb plant mewn ysgolion, sy'n cynnwys gweinyddu Rhybuddion Cosb Benodol ac achosion troseddol
- amddiffyn plant
- plant ag anghenion arbennig
- goruchwylio'r drefn sy'n ymwneud â chyflogi plant.

Fel arfer cyfeirir achosion i'r Gwasanaeth gan ysgolion, ond mae modd i blant a theuluoedd eu hunain, yn uniongyrchol, gysylltu â'r Swyddog Lles Addysg yn y Swyddfa Addysg. Darperir hyfforddiant naill ai i unigolion yn eu cartrefi neu mewn grwpiau bychan i ddisgyblion sy'n methu mynychu ysgol am gyfnodau estynedig oherwydd rhwystrau meddygol, neu gymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

5. POLISI IAITH
Amcanion Cyffredinol

Gwybodaeth i Rieni

Mae Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn yn gweithredu polisi dwyieithog yn holl ysgolion y sir. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeilio yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

Amcanion Penodol
Addysg Feithrin
Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Cyfnod Sylfaen
Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, a datblygu sgiliau dwyieithrwydd pob disgybl.

Cyfnod Allweddol 2
Atgyfnerthu a datblygu gallu Cymraeg a Saesneg pob plentyn ym mhob agwedd, yn weithredol ac yn dderbyngar, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl ac yn hyderus yn y ddwy iaith wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. (Caiff darpariaeth arbennig ei gwneud ar gyfer hwyrddyfodiaid iau).

Uwchradd
Sicrhau fod pob disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11 ac yn sefyll arholiadau allanol priodol yn y ddwy iaith.

Cyfrwng Dysgu
Bydd pob disgybl yn defnyddio'r ddwy iaith fel cyfrwng dysgu i raddau amrywiol yn unol â'r angen er mwyn sicrhau dilyniant i'w sgiliau dwyieithog drwy gydol eu gyrfa addysgol.
Sicrhau fod modd i ddisgyblion sefyll arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl natur ieithyddol y dysgu yn y gwahanol bynciau. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddyfodiaid).

Siarter Iaith
Mae pob ysgol o fewn yr Awdurdod wedi mabwysiadu, ac addunedu, i weithredu egwyddorion y 'Siarter Iaith Gymraeg'. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu a defnyddio'r iaith yn rhugl fel eu bod yn dod yn oedolion cwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa ysgol.
Nod y siarter yw sicrhau fod pob disgybl sy'n derbyn ei addysg yn ein hysgolion yn dod yn hyderus i allu defnyddio'r iaith yn feunyddiol gan ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog llawn sy'n gallu dewis byw a gweithio yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno.
Mae strwythur y Siarter yn yr ysgolion yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu iaith anffurfiol y disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd llawn ac amrywiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau addysgol ac yn gymdeithasol. Un o gryfderau'r Siarter yw bod y disgyblion yn cydweithio gyda'r staff, y rhieni, y Llywodraethwyr a'r gymuned ehangach i ddarparu cyfleoedd eang, a gweithgareddau amrywiol, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg ac yn gyfle i ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng cyfathrebu. Yn gyffredinol, mae'r cynghorau ysgol yn arwain y gwaith hwn ac y mae tystiolaeth fod y gyfundrefn eisoes yn codi hyder disgyblion i siarad yr iaith ar draws ysgolion yr ynys.

6. CLUDIANT YSGOL

Gwybodaeth i Rieni

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ddarparu cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
Nid yw'r rhestr hon yn drwyadl ac mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried bob achos unigol yn ôl ei rinweddau ei hun, gan ystyried unrhyw gynrychiolaeth. Gosodir y dulliau a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol i ryddhau'r rhwymedigaethau hyn yn y ddogfen bolisi. Dyletswydd yr Awdurdod Lleol yw pennu'r modd o deithio rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol fel a ganlyn i ddisgyblion llawn amser 4-16 oed:

(i) i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n **byw** 2 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn **byw** yn ei dalgylch;
(ii) i ddisgyblion ysgol uwchradd sy'n **byw** 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn **byw** yn ei dalgylch, ac eithrio disgyblion 6ed dosbarth / myfyrwyr addysg bellach
(iii) i ddisgyblion lle, ym marn yr Awdurdod Lleol, mae cludiant am ddim yn angenrheidiol oherwydd natur Anghenion Addysgol Arbennig y plentyn, ei gyflwr meddygol neu amgylchiadau unigol eraill (bydd gofyn am dystiolaeth)
(iv) i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys am gludiant dan (i), (ii) na (iii) uchod ond sy'n teithio i'r ysgol ar hyd ffordd a ystyrir yn arbennig o beryglus, neu dan amgylchiadau arbennig eraill. Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw sicrhau fod ei blentyn yn cyrraedd y pwynt casglu ar amser a'i fod yn mynd ar y cerbyd yn ddiogel. Mae'n rhaid iddynt sicrhau hefyd bod oedolyn cyfrifol yn cwrdd â'r plentyn ar y daith ddychwelyd, os yw oed neu anghenion y plentyn yn gofyn am ddarpariaeth Cymhorthydd Teithio.
(v) i ddisgyblion sy'n mynychu ysgol nad ydynt yn byw yn ei dalgylch os mai honno ydi'r ysgol agosaf i'r cartref ac os yw'r pellter o'r cartref i'r ysgol honno yn 2 filltir neu fwy i blant oed ysgol gynradd neu'n 3 milltir neu fwy i blant oed ysgol uwchradd
(vi) Oni bai am y disgyblion yn (iii) uchod, disgwylir i ddisgyblion deithio hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan yr Awdurdod.

Disgyblion cynradd sy'n byw o fewn 2 filltir i'r ysgol a disgyblion uwchradd sy'n byw o fewn 3 milltir i'r ysgol

Yn unol ag Adran 32 o Ddeddf Trafnidiaeth 1980 (sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i ddefnyddio cludiant ysgol ar gyfer teithwyr sy'n talu), gall disgyblion sy'n byw llai na 2 filltir (cynradd) a 3 milltir (uwchradd) o ysgol y dalgylch, ac felly heb hawl i gludiant am ddim, yn amodol ar amodau ac argaeledd, gymryd mantais o unrhyw seddi gweigion yng ngherbydau contract yr Awdurdod Lleol drwy wneud cais, ac os ydynt yn llwyddiannus, drwy dalu ffi. Nid yw'r trefniadau hyn ar gael i ddisgyblion sy'n gallu defnyddio gwasanaeth cludiant cyhoeddus. Fe'ch cynghorir bod seddi gweigion **yn gyfyngedig** ac nid yw gwneud cais yn gwarantu tocyn bws. Ni all yr Adran Drafnidiaeth gadarnhau argaeledd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd a gall gymryd nifer o wythnosau i bennu argaeledd seddi gweigion ar unrhyw un o'r gwasanaethau.

Disgyblion Ysgolion All-ddalgylch

Pan fo disgyblion yn cael caniatâd i fynychu ysgol heblaw'r un sy'n gwasanaethu'r dalgylch lle maent yn byw, mae'n ofynnol iddynt wneud eu trefniadau teithio eu hunain a dwyn y gost. Mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddisgyblion o'r fath am gael gwneud defnydd o seddi gweigion ar gerbydau contract, am ffi. Fe'ch cynghorir bod seddi gweigion yn **gyfyngedig** ac nid yw gwneud cais yn gwarantu y byddwch yn cael tocyn bws. Ni fydd yr Adran Drafnidiaeth yn gallu cadarnhau argaeledd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, a gall gymryd nifer o wythnosau i bennu argaeledd seddi sbâr ar unrhyw wasanaeth penodol.

Disgyblion 6ed Dosbarth/myfyrwyr addysg bellach llawn amser 16-19 oed

Gall cludiant fod ar gael i'r ysgol neu goleg addysg bellach addas agosaf. Yn amodol ar argaeledd, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ceisiadau mewn perthynas â disgyblion o'r fath am ganiatâd i

dderbyn seddi gwag ar gerbydau contract ysgol, am ffi. Cofiwch fod seddi gwag yn gyfyngedig ac nad yw gwneud cais yn gwarantu y byddwch yn cael tocyn bws. Efallai na fydd yr Adran Drafnidiaeth yn gallu cadarnhau argaeledd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd a gall gymryd nifer o wythnosau i benderfynu ar argaeledd seddau sbâr ar unrhyw wasanaeth penodol.

Ymddygiad ar Gludiant Ysgol

Dylai rhieni fod yn ymwybodol y gellir camera CCTV fod wedi ei osod mewn bysiau ysgol a dylent sicrhau fod eu plentyn/plant yn glynu at unrhyw arweiniad trafnidiaeth cenedlaethol perthnasol.
Mae diogelwch pob disgybl yn ddibynnol ar safon yr ymddygiad ar gludiant ysgol. Os yw disgybl yn camymddwyn yn barhaus ar gludiant ysgol mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i dynnu darpariaeth y cludiant yn ei hôl.

Disgyblion sy'n newid cyfeiriad

Gellir derbyn cymorth ariannol tuag at gostau teithio disgybl sy'n symud i fyw i ddalgylch newydd yn ystod cwrs arholiad allanol (TGAU) ac sy'n dymuno aros yn yr ysgol sy'n gwasanaethu ardal ei hen gartref nes cwblhau'r cwrs, fel y rhestrir isod.

1. Disgyblion yn derbyn ad-daliad hyd at uchafswm yr hyn sy'n cyfateb â chost teithio 20 milltir yn ddyddiol yn unol â chostau trafnidiaeth gyhoeddus.
2. Disgyblion yn cael teithio am ddim pan fo modd i'r Awdurdod ddarparu cludiant heb fynd i gost ychwanegol.
3. Trefniant yn cael ei wneud am weddill cyfnod y cwrs yn unig a lle mae'r pellter teithio yn un rhesymol.
4. Taliad yn cael ei wneud ar ddiwedd y tymor am bob diwrnod y mae'r disgybl wedi ei gofnodi'n bresennol ar gofrestr yr ysgol. Yn dilyn cwblhau'r cwrs, disgwylir i'r disgybl fynychu'r ysgol sy'n gwasanaethu ardal ei gartref newydd.

Ni ddarperir cludiant i blant meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn rhan amser.

Dylid codi unrhyw ymholiadau ynglŷn ag unrhyw faterion yn ymwneud â chludiant ysgol gyda Swyddog Trafnidiaeth yr Adran Priffyrdd (ffôn 01248 752458).
Dylid cyfeirio unrhyw faterion yn ymwneud â'r Polisi Trafnidiaeth i'r Gwasanaeth Dysgu drwy ffonio 01248 752901.
Mewn perthynas â chostau ar gyfer y flwyddyn addysgol berthnasol, rhennir gohebiaeth drwy'r ysgolion.

Ymgeisio am Drafnidiaeth Ysgol

Gellir cael ffurflenni cais am docynnau bws o'r ysgol neu trwy wefan yr Awdurdod www.ynysmon.gov.uk. Dylid gwneud ceisiadau am gludiant tacsi trwy'r ysgol.

7. LLES
Prydau Ysgol

Mae'r Awdurdod Lleol (AALl) yn awyddus i barhau â'r gwasanaeth prydau ysgol a'r nod yw darparu pryd o fwyd canol-dydd sy'n atyniadol, yn faethlon ac yn rhesymol ei bris i ddisgyblion. Mae'r awr ginio hefyd yn achlysur cymdeithasol ac mae iddi arwyddocâd addysgol.

Mae'r bwydlenni a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prydau Ysgol yn seiliedig ar argymhellion maethol yr amlinellir yn y National Advisory Committee Report on Nutrition Education (NACNE), ond ar yr un pryd yn cynnig bwydydd poblogaidd. Mae amrywiaeth ar gael yn y bwydlenni, rheolaeth o'r defnydd o fwydydd poblogaidd a dewis o fwydydd "iach" ar gael pob amser.

Mae bwydlen dau gwrs syml ar gael am bris penodedig yn yr ysgolion cynradd. Mewn ysgolion uwchradd, cynigir dewis o bryd dau gwrs, neu fyrbryd, cwrs cyntaf, neu bwdin yn unig.
Mae cinio ysgol ar gael i bob disgybl ar wahân i ddisgyblion meithrin rhan-amser.

Disgyblion sy'n dod â brechdanau
Gwneir darpariaeth yn yr ysgolion ar gyfer plant sy'n dymuno dod a'u bwyd eu hunain, e.e. dŵr yfed.

Llefrith
Rhoddir traean peint o lefrith y dydd yn ddi-dâl i:

- ddisgyblion dan 7 oed
- disgyblion ysgolion arbennig
- unrhyw ddisgybl mewn ysgol gynradd sydd angen llefrith ar dir meddygol pan fo tystysgrif wedi'i chyflwyno ar ei ran gan y Swyddog Meddygol Ysgolion.

Cinio Ysgol am Ddim
Mae cinio ysgol am ddim ar gael ar gyfer rhai disgyblion.

I weld a yw eich plentyn chi yn gymwys, ewch i'r wefan www.ynysmon.gov.uk (a chwilio am 'Prydau Ysgol Am Ddim') neu ffoniwch 01248 750057 (opsiwn 3 ac yna opsiwn 1).

Grant gwisg ysgol a datblygu disgyblion
Pwrpas y cynllun yw cynorthwyo teuluoedd ar incwm isel.

Am ragor o wybodaeth a manylion ar sut i wneud cais, ewch i'r wefan www.ynysmon.gov.uk (a chwiliwch am 'Gwisg Ysgol') neu ffoniwch yr Adran Fudd-daliadau ar 01248 750057.

Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-16
Gall disgyblion o deuluoedd gydag incwm isel sy'n dymuno aros yn yr ysgol y tu draw i'r oedran gadael ysgol statudol hawlio Lwfans Cynnal Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru (LCA).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag ysgol uwchradd eich plentyn, Llinell Gymorth LCA Cymru ar 0845 6028845, neu ewch i wefan EMA Cymru.

ATODIAD I / APPENDIX I

Ysgolion Uwchradd Secondary Schools

Rhif Ysgol / School No	Enw'r Ysgol Uwchradd / Name of Secondary School	Pennaeth a Manylion Cysylltu / Headmaster & Contact Details	Ysgolion Cynradd y Dalglych / Catchment Area Primary Schools	Statws Status	Oedran Age	Categori Iaith Language	Capasiti Capacity	Rhif Mynediad Admission Number	Ceisiadau am fynediad Medi 2021 Applications for Admission Sept 2021	Derbyniadau Intake	Nifer o apeliau Number of appeals	Cyfanswm disgyblion Medi 2021 Total Pupils September 2021
4025	Syr Thomas Jones	Mr Aaron Bayley Amlwch LL68 9TH 01407 830287 6604025_pennaeth.ystj@hwbcymru.net	Amlwch Cemaes Garreglefn Moelfre Llanfechell Penysarn Rhosybol Gorowny Owen	C	11-18	DI	971	184	79	79	0	IG/TBC
4026	Caergybi	Mr Adam Williams Caergybi LL65 1NP 01407 762219 6604026_pennaeth.yuc@hwbcymru.net	Rhoscolyn Rhosneigr Y Fali Llanfawr Y Tywyn Kingsland Cybi Santes Fair Caergeiliog	C	11-18	SG	1170	179	150	150	0	IG/TBC
4027	Gyfun Llangefni	Mr Huw Davies Llangefni LL77 7NG 01248 723441 6604027_pennaeth.ygll@hwbcymru.net	Bodffordd Esceifiog Llanbedrgoch Y Graig Henblas Talwrn Corn Hir Santes Dwynwen	C	11-18	DI	896	169	137	137	0	IG/TBC
4028	David Hughes	Mr H. Emyr Williams Porthaethwy LL59 5SS 01248 712287 6604028_pennaeth.ydh@hwbcymru.net	Beaumaris Brynsiencyn Llanfairpwll Llangoed Pentraeth Llandegfan Y Borth Parc Y Bont	C	11-18	DI	1283	216	195	195	0	IG/TBC
4029	Bodedern	Mr Paul Matthews-Jones Bodedern LL65 3SU 01407 741000 6604029_pennaeth.yub@hwbcymru.net	Bodedern Bryngwran Y Ffridd Llannerchymedd Pencarnisiog Morswyn Rhyd Y Llan	C	11-18	DI	851	159	147	147	0	IG/TBC

Allwedd/Key

C	Ysgolion Cymunedol / Community Schools
SG	Saesneg (â chyfran sylweddol o Gymraeg) English (with Significant Welsh)
DI	Dwy Ieithog / Bilingual

All schools in Anglesey are co-educational day schools. All secondary schools are 11-18 community comprehensive schools.
Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun cymunedol 11-18 oed. Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd hefyd

Atodiad II / Appendix II

Ysgolion Cynradd Dalgylch
YSGOL SYR THOMAS JONES
Catchment Area Primary Schools

Rhif Ysgol / School No	Enw'r Ysgol / Name of School	Cyfeiriad a Rhif Ffôn / Address & Tel. No	Pennaeth / Headteacher	Statws Status	Oedran Age	Categori Iaith Language	Capasiti (Ac Eithrio Meithrin) Capacity (Excluding Nursery)	Rhif Mynediad Derbyn Reception Admission	Ceisiadau am fynediad Medi 2021 Applications for Admission Sept 2021	Derbyniadau Intake	Nifer o apeliau Number of appeals	Cyfanswm disgyblion 4-11 Medi 2021 Total Pupils 4-11 September 2021
2130	Amlwch	Amlwch LL68 9DY 01407 830414	Mrs Bethan Jones	C	3-11	WM	258	36	40	40	0	243
2138	Cemaes	Cemaes LL67 0LB 01407 710225	Ms Nicola Williams	C	3-11	WM	73	11	6	6	0	67
2141	Garreglefn	Carreglefn LL68 0PH 01407 710508	Mrs Manon Davies	C	3-11	WM	46	6	1	1	0	12
2145	Moelfre	Moelfre LL72 8NA 01248 410546	Ms Tegwen Morris	C	3-11	WM	85	12	7	7	0	57
2153	Llanfechell	Llanfechell LL68 0SA 01407 710512	Mrs Ffion Griffiths	C	3-11	WM	106	15	13	13	0	74
2162	Penysarn	Penysarn LL69 9AZ 01407 830678	Mrs Delyth Roberts	C	3-11	WM	92	13	6	6	0	83
2165	Rhosybol	Rhosybol LL68 9PP 01407 830484	Mrs Gwenan Roberts	C	3-11	WM	64	9	5	5	0	70
2170	Goronwy Owen	Benllech LL74 8SG 01407 852667	Mrs Tegwen Morris	C	3-11	WM	153	21	24	24	0	123

Allwedd/Key

C	Ysgolion Cymunedol / Community Schools
G (E)	Ysgolion Gwirfoddol Yr Eglwys yng Nghymru Voluntary School - Church in Wales
G (C)	Ysgolion Gwirfoddol - Catholig Voluntary Schools - Roman Catholic
W	Ysgol Syfydledig / Foundation School
WM	Ysgol Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium School
EM	Ysgol Cyfrwng Saeseng / English Medium School
DS	Dwy Ffwrd / Dual Stream

All schools in Anglesey are co-educational day schools. All secondary schools are 11-18 community comprehensive schools.
Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun cymunedol 11-18 oed. Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd hefyd

Atodiad II / Appendix II

Ysgolion Cynradd Dalgylch
YSGOL UWCHRADD CAERGYBI
Catchment Area Primary Schools

Rhif Ysgol / School No	Name of School	Ffôn / Address & Tel. No	Pennaeth / Headteacher	Statws Status	Oedran Age	Categori Iaith Language Category	Capasiti (Ac Eithrio Meithrin) Capacity (Excluding Nursery)	Rhif Mynediad Derbyn Reception Admission Number	Ceisiadau am fynediad Medi 2021 Applications for Admission Sept 2021	Derbyniadau Intake	Nifer o apeliau Number of appeals	Cyfanswm disgyblion 4-11 Medi 2021 Total Pupils 4-11 September 2021
2163	Santes Gwenfaen Rhoscolyn	Caergybi LL65 2DX 01407 860264	Ms Sara Roberts	C	3-11	WM	100	14	11	11	0	93
2164	Rhosneigr	Rhosneigr LL64 5XA 01407 810571	Mrs Lyndsey Harper-Hughes	C	3-11	WM	64	9	10	10	0	79
2168	Y Fali	Y Fali LL65 3EU 01407 740518	Mr Iolo Evans	C	3-11	WM	104	14	13	13	0	85
2169	Llanfawr	Caergybi LL65 2DS 01407 762552	Mr Gwyn Williams	C	3-11	WM	233	33	27	27	0	265
2173	Y Tywyn	Caergeiliog LL65 3LW 01407 740781	Mr Emyr Williams	C	3-11	WM	135	19	19	19	0	110
2176	Kingsland	Caergybi LL65 3LW 01407 763295	Mr Gareth Owen	C	3-11	WM	146	20	25	25	0	167
3036	Cybi	Caergybi LL65 1NS 01407 883150	Mr Owain Roberts	G(E)	3-11	WM	540	77	50	50	0	401
3304	Santes Fair St Mary's	Caergybi LL65 1TR 01407 763176	Mr Richard Jones	G (C)	3-11	EM	140	20	7	7	0	118
5200	Caergeiliog	Caergeiliog LL65 3NP 01407 740619	Mr Simon Browne	W	3-11	EM	422	60	36	36	0	331

Allwedd/Key

C	Ysgolion Cymunedol / Community Schools
G (E)	Ysgolion Gwirfoddol Yr Eglwys yng Nghymru Voluntary School - Church in Wales
G (C)	Ysgolion Gwirfoddol - Catholig Voluntary Schools - Roman Catholic
W	Ysgol Syfydledig / Foundation School
WM	Ysgol Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium School
EM	Ysgol Cyfrwng Saeseng / English Medium School
DS	Dwy Ffrwd / Dual Stream

Ystyrir Ysgol Uwchradd Bodedern yn ysgol ddalgylch I ddisgyblion dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi sy'n dymuno derbyn addysg uwchradd ddwyieithio lawn

Ysgol Uwchradd Bodedern is considered to be the catchment area school for Holyhead area pupils who wish to receive a full bilingual secondary education

All schools in Anglesey are co-educational day schools. All secondary schools are 11-18 community comprehensive schools.

Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun cymunedol 11-18 oed. Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd hefyd

Atodiad II / Appendix II

Ysgolion Cynradd Dalgylch
YSGOL GYFUN LLANGEFNI
Catchment Area Primary Schools

Rhif Ysgol / School No	Enw'r Ysgol / Name of School	Cyfeiriad a Rhif Ffôn / Address & Tel. No	Pennaeth / Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Categori Iaith Language	Capasiti (Ac Eithrio Meithrin) Capacity (Excluding Nursery)	Rhif Mynediad Derbyn Reception Admission	Ceisiadau am fynediad Medi 2021 Applications for Admission Sept 2021	Derbyniadau Intake	Nifer o apeliau Number of appeals	Cyfanswm disgyblion 4-11 Medi 2021 Total Pupils 4-11 September 2021
2133	Bodffordd	Bodffordd LL77 7LZ 01248 723384	Mr Rhys Roberts	C	3-11	WM	63	9	16	16	0	81
2140	Esceifiog	Gaerwen LL60 6DD 01248 421669	Mrs Llinos Davies	C	3-11	WM	124	17	15	15	0	139
2146	Llanbedrgoch	Llanbedrgoch LL76 8SX 01248 450291	Miss Elain Jones	C	3-11	WM	54	7	3	3	0	16
2154	Y Graig	Llangefni LL77 7LP 01248 723092	Mrs Meinir Roberts	C	3-11	WM	330	47	51	51	0	328
2156	Henblas	Llangristiolus LL62 5DN 01248 723944	Mr Huw Jones	C	3-11	WM	96	13	11	11	0	96
2166	Talwrn	Llangefni LL77 7TG 01248 723363	Mrs Llinos Edwards Goosey	C	4-11	WM	49	7	3	3	0	31
2226	Corn Hir	Llangefni LL77 7JB 01248 722558	Mr Rhys Roberts	C	4-11	WM	204	29	33	33	0	239
3037	Santes Dwynwen	Niwbwrch LL61 6AE 01248 663894	Mrs Manon Williams	G (E)	3-11	WM	180	25	8	8	0	107

Allwedd/Key

C	Ysgolion Cymunedol / Community Schools
G (E)	Ysgolion Gwirfoddol Yr Eglwys yng Nghymru Voluntary School - Church in Wales
G (C)	Ysgolion Gwirfoddol - Catholig Voluntary Schools - Roman Catholic
W	Ysgol Syfydledig / Foundation School
WM	Ysgol Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium School
EM	Ysgol Cyfrwng Saeseng / English Medium School
DS	Dwy Ffwrd / Dual Stream

All schools in Anglesey are co-educational day schools. All secondary schools are 11-18 community comprehensive schools.

Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun cymunedol 11-18 oed. Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd hefyd

Atodiad II / Appendix II

Ysgolion Cynradd Dalgylch
YSGOL DAVID HUGHES
Catchment Area Primary Schools

Rhif Ysgol / School No	Enw'r Ysgol / Name of School	Cyfeiriad a Rhif Ffôn / Address & Tel. No	Pennaeth / Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Categori Iaith Language	Capasiti (Ac Eithrio Meithrin) Capacity (Excluding Nursery)	Rhif Mynediad Derbyn Reception Admission	Ceisiadau am fynediad Medi 2021 Applications for Admission Sept 2021	Derbyniadau Intake	Nifer o apeliau Number of appeals	Cyfanswm disgyblion 4-11 Medi 2021 Total Pupils 4-11 September 2021
2131	Beaumaris	Beaumaris LL58 8HL 01248 810451	Ms Bethan Jones	C	3-11	WM	143	20	8	8	0	34
2136	Brynseincyn	Brynsiencyn LL61 6HZ 01248 430457	Mr Aled Williams	C	3-11	WM	79	11	4	4	0	39
2152	Llanfairpwll	Llanfairpwll LL61 5TX 01248 714478	Mr Gwyn Pleming	C	3-11	WM	322	46	42	42	0	312
2155	Llangoed	Llangoed LL58 8SA 01248 490680	Ms Lisa Evans	C	3-11	WM	98	14	13	13	0	74
2161	Pentraeth	Pentraeth LL75 8UP 01248 450315	Ms Lynne Jones	C	3-11	WM	120	17	8	8	0	100
2174	Llandegfan	Llandegfan LL59 5UW 01248 713431	Mr Dewi Hood	C	4-11	WM	145	20	15	15	0	149
2175	Y Borth	Porthaethwy LL59 5DS 01248 713000	Mr Alan MacDonald	C	3-11	WM	199	28	33	33	0	217
2228	Parc Y Bont	Llanddaniel LL60 6HB 01248 422350	Mr Rhys Jones (Pennaeth Mewn Gofal / Headteacher in Charge)	G (E)	3-11	WM	93	13	14	14	0	107

Allwedd/Key

C	Ysgolion Cymunedol / Community Schools
G (E)	Ysgolion Gwirfoddol Yr Eglwys yng Nghymru Voluntary School - Church in Wales
G (C)	Ysgolion Gwirfoddol - Catholig Voluntary Schools - Roman Catholic
W	Ysgol Syfydledig / Foundation School
WM	Ysgol Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium School
EM	Ysgol Cyfrwng Saeseng / English Medium School
DS	Dwy Ffwrd / Dual Stream

All schools in Anglesey are co-educational day schools. All secondary schools are 11-18 community comprehensive schools.

Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun cymunedol 11-18 oed. Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd hefyd

Atodiad II / Appendix II

YSGOL UWCHRADD BODEDERN
Catchment Area Primary Schools

Rhif Ysgol / School No	Enw'r Ysgol / Name of School	Cyfeiriad a Rhif Ffôn / Address & Tel. No	Pennaeth / Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Categori Iaith Language	Capasiti (Ac Eithrio Meithrin) Capacity (Excluding Nursery)	Rhif Mynediad Derbyn Reception Admission	Ceisiadau am tynediad Medi 2021 Applications for Admission Sept 2021	Derbyniadau Intake	Nifer o apeliau Number of appeals	Cyfanswm disgyblion 4-11 Medi 2021 Total Pupils 4-11 September 2021
2132	Gynradd Bodedern	Bodedern LL65 3TZ 01407 740201	Miss Nia Efans	C	3-11	WM	103	14	11	11	0	90
2135	Bryngwran	Bryngwran LL65 3PP 01407 720400	Mrs Dwynwen Powell	C	3-11	WM	59	8	4	4	0	35
2142	Y Ffridd	Gwalchmai LL65 4SG 01407 720477	Mr Henry Jones	C	3-11	WM	84	12	8	8	0	86
2157	Llannerch-y-medd	Llanerch-y-medd LL71 8DP 01248 470466	Ms Ffion Wyn	C	3-11	WM	111	17	16	16	0	123
2160	Pencarnisiog	Ty Croes LL63 5RY 01407 810622	Mrs Rhian Lloyd	C	3-11	WM	50	7	9	9	0	60
2177	Morswyn	Caergybi LL65 2TF 01407 762233	Mr Medwyn Roberts	C	3-11	WM	126	18	28	28	0	161
2227	Rhyd Y Llan	Llanfaethlu LL65 4PH 01407 887922	Mrs Nia Thomas	C	3-11	WM	150	21	16	16	0	128

Allwedd/Key

C	Ysgolion Cymunedol / Community Schools
G (E)	Ysgolion Gwirfoddol Yr Eglwys yng Nghymru Voluntary School - Church in Wales
G (C)	Ysgolion Gwirfoddol - Catholig Voluntary Schools - Roman Catholic
W	Ysgol Syfydledig / Foundation School
WM	Ysgol Cyfrwng Cymraeg / Welsh Medium School
EM	Ysgol Cyfrwng Saeseng / English Medium School
DS	Dwy Ffwrd / Dual Stream

Ystyrir Ysgol Uwchradd Bodedern yn ysgol ddalgylch I ddisgyblion dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi sy'n dymuno derbyn addysg uwchradd ddwyieithio lawn

Ysgol Uwchradd Bodedern is considered to be the catchment area school for Holyhead area pupils who wish to receive a full bilingual secondary education

All schools in Anglesey are co-educational day schools. All secondary schools are 11-18 community comprehensive schools.

Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun cymunedol 11-18 oed. Ysgolion cymunedol yw'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd hefyd